Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ebrill 2019

Amser: 10. - 15.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5438

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mick Antoniw AC (Cadeirydd) Dawn Bowden AC Carwyn Jones AC Mandy Jones AC Dai Lloyd AC David Melding AC
Tystion:	Amanda Bebb, Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol Rhys George, Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol Lisa James, Llywodraeth Cymru Bethan Roberts, Llywodraeth Cymru Peter Stanyon, Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol Elan Closs Stephens, Electoral Commission in Wales Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol Chris Warner, Llywodraeth Cymru Bob Posner, Comisiwn Etholiadol

	Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Sarah Sargent (Ail Glerc) Alex Hadley (Dirprwy Glerc) Manon George (Ymchwilydd) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies AC. Roedd David Melding AC yn dirprwyo ar ei rhan.

2 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 9

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Amanda Bebb, Dirprwy Gadeirydd Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol; Peter Stanyon, Prif Weithredwr, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol; Rhys George, Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol; Yr Athro Elan Closs Stephens, Comisiynydd Etholiadol Cymru; Bob Posner, Prif Weithredwr, y Comisiwn Etholiadol; a Rhydian Thomas, Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru.

Cytunodd y Comisiwn Etholiadol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am gofrestru pleidleiswyr yn yr Alban.

Ataliodd y Cadeirydd y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 17.47 am 5 munud cyn eitem 3.

3 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 10

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol.

Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol i ddarparu gwybodaeth ynghylch Adran 27 o'r Bil cyn diwedd Cyfnod 1.

4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

4.1 SL(5)406 – Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

5.1 SL(5)409 – Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i ofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar yr ail bwynt technegol a godwyd.

6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – offerynnau a drafodwyd yn flaenorol

6.1 SL(5) 398 – Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth.

7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

7.1 C(5)032 – Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 6, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2019

Trafododd y Pwyllgor y Gorchymyn, a'i nodi.

8 Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

8.1 WS-30C(5)128 - Rheoliadau Cystadleurwydd Mentrau a Mentrau Bach a Chanolig (Dirymu) (Ymymael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

8.2 WS-30C(5)129 - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Mesurau'r Farchnad (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

8.3 WS-30C(5)130 - Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

9 Papurau i'w nodi

9.1 Llythyr gan Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.2 Llythyr gan y Llywydd: Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2019

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Diwygio is-ddeddfwriaeth - amserlenni

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.5 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.6 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Drafftio rheoliadau

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.7 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.8 Llythyr gan y Parchedig Gethin Rhys, Cytûn, at y Prif Weinidog: Trefniadau ar gyfer deddfwriaeth ddatganoledig cyn ar ar ôl Brexit

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.9 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Bil Masnach y DU – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

9.10 Llythyr gan y Cyfreithiwr Cyffredinol at y Cwnsler Cyffredinol: Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

10 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 11

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid.

11 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

12 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

13 Gorchmynion Cychwyn

Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.